Public Document Pack

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
# Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147 / 643694
Gofynnwch am / Ask for:  Michael Pitman

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Mercher, 7 Awst 2019

Annwyl Cynghorydd,

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cynhelir Cyfarfod  Pwyllgor Trwyddedu yn Ystafelloedd Pwyllgor 2/3 - Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB ar **Dydd Mawrth, 13 Awst 2019** am **09:30**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
   Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 3 - 10
   I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 18/02/2019 and 21/05/2019

4. Prawf Gwybodaeth Gyrwyr Cerbydau Hacni / Llogi Preifat — 11 - 16

5. Materion Brys
   I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Yn ddiffuant
**K Watson**
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol

**Dosbarthiad:**

| Cynghowrwyr | Cynghorwyr | Cynghorwyr |
|---|---|---|

PA Davies
DRW Lewis
JE Lewis
DG Owen
RM James

RJ Collins
B Jones
G Thomas
AA Pucella
JE Williams

MJ Kearn
A Hussain
TH Beedle
JR McCarthy

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD YN SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 18 CHWEFROR 2019, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| SE Baldwin | AA Pucella | JE Williams | MJ Kearn |
| A Hussain | TH Beedle | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Cynghorydd D Owen
Cynghorydd J Lewis
Cynghorydd G Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |

24. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

25. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod pwyllgor trwyddedu'r 22/05/2018 yn gofnod gwir a chywir.

26. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR WELLA TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS

Cyflwynodd y Swyddog Polisi Trwyddedu adroddiad a oedd yn amlinellu manylion Cynigion Llywodraeth Cymru o ran trwyddedu tacsis, a gofynnodd i'r Pwyllgor roi awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch trwyddedu tacsis.

Hysbysodd yr Aelodau y byddai'n rhoi cyflwyniad iddynt a oedd yn dadansoddi manylion y cynigion presennol a restrir yn adran 3 a 4 yr adroddiad.

Tywysodd aelodau drwy adran 3 yr adroddiad a rhoddodd beth cefndir i'r sefyllfa bresennol. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Gyfraith rhwng 2011-2014, ac ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn 2017, yn ystyried cynigion i ddiwygio'r gyfundrefn trwyddedu tacsis a thrwyddedu llogi preifat yng Nghymru.

Yna, eglurodd pa faterion allweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u priodoli i'r polisi trwyddedu presennol. Esboniodd fod safonau anghyson ar draws pob awdurdod lleol wedi arwain at amrywiadau o ran ansawdd cerbydau yn ogystal â'r gost sy'n cael ei chodi, gan ddibynnu ar ba awdurdod lleol y daeth y tacsi.

Aeth ati hefyd i egluro materion gorfodi, a nododd wrth yr Aelodau nad oedd unrhyw fecanwaith statudol ar hyn o bryd ar gyfer gorfodi cerbydau sydd wedi'u trwyddedu mewn awdurdodau gwahanol.

Disgrifiodd hefyd faterion diogelu, a nododd wrth yr Aelodau nad oes unrhyw rannu gwybodaeth rhwng awdurdodau ar hyn o bryd ynghylch trwyddedu gyrwyr tacsi. Mae hyn yn fygythiad i'r cyhoedd oherwydd y gallai gyrrwr dderbyn trwydded tacsi gan un awdurdod hyd yn oed os yw eu trwydded wedi cael ei dirymu mewn awdurdod arall.

Gwnaeth Aelod sylw ar y materion, gan egluro fod y pryderon yn rhai dilys, a chytunodd fod angen gweithredu arnynt mewn rhyw ffordd.

Aeth y Swyddog Polisi Trwyddedu i egluro'r cynigion presennol, gan ddweud eu bod yn cael eu cyflwyno, er eu bod ond yn nyddiau cynnar y broses, er mwyn i Aelodau roi eu barn arnynt.

Opsiwn 1 –

- Sefydlu safonau cenedlaethol, gan gynnwys safonau gyrwyr a safonau cerbydau, yn ogystal â chronfa ddata genedlaethol.
- Ailgyfeirio swyddogaethau trwyddedu presennol y 22 awdurdod lleol o ran Cerbydau Hackney a cherbydau Llogi Preifat er mwyn sefydlu 1 awdurdod trwyddedu ar y cyd.
-

Opsiwn 2 –

- Sefydlu safonau cenedlaethol gan gynnwys safonau gyrwyr a safonau cerbydau.
- Sefydlu system orfodi fwy trylwyr lle gall unrhyw awdurdod trwyddedu ddirymu trwydded yrru os oes angen, waeth ble y cafodd y gyrrwr ei drwyddedu'n wreiddiol.
- Sefydlu cronfa ddata ganolog o fanylion am ddirymiadau trwyddedau sydd ar gael i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.
- Cadw swyddogaethau trwyddedu o fewn yr awdurdodau lleol.

Mynegodd yr Aelodau eu pryderon am opsiwn 1, gan nodi ei fod yn newid sylweddol i'r system bresennol.

Dywedodd Aelod, er ei fod yn credu y byddai opsiwn 1 yn haws ac o bosibl yn fwy effeithlon yn yr hirdymor, y byddai'r newid yn y tymor byr a'r tymor canolig yn enfawr, ac yn achosi aflonyddwch i'r gwasanaethau trwyddedu yn ogystal â gyrwyr tacsis. Gallai hefyd fod yn gostus i'r awdurdod pe byddai angen i BCBS gydymffurfio â newidiadau unffurf.

Dywedodd Aelod arall nad oedd yn cytuno ag opsiwn 1 ychwaith, gan ddweud mai opsiwn 2 oedd orau. Eglurodd y byddai'n caniatáu i Aelodau wneud penderfyniadau am eu hawdurdodau lleol, awdurdodau y maent yn eu hadnabod ac yn byw ynddynt, rhywbeth nad fyddai awdurdod trwyddedu ar y cyd yn gallu ei wneud i'r un safon.

Roedd Aelod arall yn cytuno ag opsiwn 2 am ei fod yn cadw swyddogaethau trwyddedu o fewn awdurdodau lleol, ond roedd hefyd am bwysleisio pwysigrwydd cronfa ddata trwyddedu ganolog.

Gofynnodd Aelod i'r Swyddog Polisi Trwyddedu pwy fyddai'n gallu gweld y gronfa ddata ac o dan ba amgylchiadau y byddai'r wybodaeth yn cael ei darparu i'r Aelodau?

Eglurodd y Swyddog Polisi Trwyddedu nad oedd yn gallu dweud yn bendant sut y byddai'r broses yn digwydd, a bod y cynigion ond yng nghamau cynnar eu datblygiad. Fodd bynnag, esboniodd y byddai'n debygol o ddilyn yr un broses, neu broses debyg, â thystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Er na fyddai hyn yn disodli gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel darn statudol o wybodaeth sy'n

angenrheidiol ar gyfer cymeradwyo neu wrthod trwydded, byddai'n darparu gwybodaeth ychwanegol i'r Swyddogion Trwyddedu na fyddai'n ymddangos fel euogfarn droseddol.

Gofynnodd Aelod arall i'r Swyddog Polisi Trwyddedu a fyddai elfen o arbed arian i'r awdurdod lleol yn gysylltiedig ag opsiwn 1? Eglurodd y Swyddog Polisi Trwyddedu nad oes digon o fanylion ynglŷn â'r broses gyfan i wneud tybiaeth resymol o ran arbed arian i awdurdodau lleol.

Mynegodd Aelod arall ei bryderon ynglŷn ag opsiwn 1, gan nodi y byddai awdurdodau lleol yn colli llawer o waith–o ran Cynghorwyr yn ogystal â Swyddogion.

Rhoddodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu wybod i'r Aelod y byddai'r holl faterion trwyddedu sy'n ymwneud â thacsis a cherbydau llogi preifat yn cael eu trosglwyddo, ond y byddai materion trwyddedu eraill yn aros gyda'r awdurdod lleol–eiddo a thrwyddedau gwirodydd er enghraifft.

Dywedodd Aelod ei fod yn siomedig â'r diffyg manylder o ran Opsiwn 1 ac o ran logisteg y cynigion. Gofynnodd i'r Swyddog Polisi Trwyddedu i ba raddau y byddai angen i ymgeisydd neu yrrwr presennol deithio er mwyn i'w cerbyd gael ei archwilio neu er mwyn eistedd o flaen Pwyllgor?

Eglurodd y Swyddog Polisi Trwyddedu nad oes unrhyw fanylion pellach am hyn yn anffodus, ond y byddai'n hapus i fynegi'r pryder hwnnw.

Gofynnwyd am farn y Swyddog Polisi Trwyddedu ynglŷn â'r cynigion. Eglurodd fod pwyntiau cadarnhaol a negyddol i'r ddau gynnig, ond byddai'n dadlau nad oes llawer o fanylion o ran Opsiwn A ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r ddau opsiwn yn eang eu natur hyd yma ac mae'n edrych ymlaen at yr ymgynghoriadau pellach er mwyn cael mwy o wybodaeth am y manylion.

Gofynnodd y Swyddog Cyfreithiol i'r Aelodau a oedd unrhyw beth yr hoffent ei weld yn y cynigion nad oedd wedi'u crybwyll hyd hynny.

Dywedodd Aelod y byddai'n fuddiol i'r cwsmeriaid sy'n talu am dacsi neu'n llogi cerbyd preifat gael gwybod beth fyddai'r pris cyn iddynt ddechrau ar unrhyw daith. Dywedodd fod gormod o amrywiaeth o ran prisiau ar gyfer yr un daith, rhywbeth a allai gael ei ddylanwadu gan amrywiaeth o ffactorau megis man cychwyn y daith a'r amser a gymerir i'w chwblhau. Roedd yr Aelod o'r farn na ddylai hyn ddigwydd, oherwydd pe baech yn teithio ar drên neu fws, ni fyddai'r ffi yn amrywio yn ddibynol ar leoliad cychwyn neu'r amser a gymerwyd ar gyfer y daith.

Gofynnodd y Swyddog Polisi Trwyddedu i'r Aelodau a oedd unrhyw gwestiynau pellach, yr ateb oedd na.

PENDERFYNWYD:

1. Nododd yr Aelodau gynnwys yr adroddiad
2. Bod yr Aelodau yn awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i ymateb i'r ymgynghoriad o ran trwyddedu tacsis ar ran yr awdurdod.

27. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 10:30

This page is intentionally left blank

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 21 MAI 2019, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| PA Davies | RM James | B Jones | G Thomas |
| AA Pucella | JE Williams | MJ Kearn | A Hussain |
| TH Beedle | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JE Lewis a/ac JR McCarthy

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |
| Daniel Cook | Swyddog Polisi Trwyddedu |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |

29. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

30. PENODI IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU A DIRPRWYO I SWYDDOGION

Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu adroddiad a oedd yn cynnig aelodaeth o'r Is-bwyllgorau Trwyddedu yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, 2019.

Eglurodd fod y cynigion yn ofynnol ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â cheisiadau trwyddedu cyffredinol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â thrwyddedu tacsis. Gellir dod o hyd i'r ystod o swyddogaethau o fewn Cyfansoddiad y Cyngor yn rhan 3.

Eglurodd y derbyniwyd adroddiad yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 15 Mai, a oedd yn nodi aelodaeth o Bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a'r Pwyllgor Trwyddedu.

Cynigodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu, felly fod y Pwyllgor yn parhau â'r trefniadau presennol ac yn cymeradwyo ffurfio'r ddau banel yn eistedd ar sail rota.

Dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu wrth Aelodau am ymholiad diweddar gan Aelod ynghylch cydbwysedd gwleidyddol yr Is-bwyllgorau ond eglurodd nad oedd hynny'n ofynnol i Is-bwyllgorau gan fod y prif Bwyllgor eisoes yn cydymffurfio â'r cydbwysedd gwleidyddol gofynnol.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor:

(1) Yn cymeradwyo ffurfio'r Is-bwyllgorau fel a ganlyn;

Is-bwyllgor (A)
- Cyng. D Lewis (Cadeirydd)
- Cyng. T Beedle
- Cyng. R Collins

- Cyng. M Kearn
- Cyng. D Owen
- Cyng. A Pucella
- Cyng. J Williams

Is-bwyllgor (B)
- Cyng. PA Davies (Is-gadeirydd)
- Cyng. RM James
- Cyng. B Jones
- Cyng. JE Lewis
- Cyng. J McCarthy
- Cyng. G Thomas
- Cyng. A Hussain

(2) Yn parhau â'r trefniadau presennol o ddau banel yn eistedd ar sail rota.

Pe bai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn methu â mynychu eu cyfarfodydd Is-bwyllgor priodol, byddai Cadeirydd yn cael ei ethol gan y rhai hynny sy'n bresennol.

31. CANLLAWIAU DIWYGIEDIG AR BENDERFYNU AR ADDASRWYDD YMGEISWYR A DEILIAID TRWYDDEDAU YN Y MASNACHAU HACNI A HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Swyddog Polisi Trwyddedu adroddiad a oedd yn darparu manylion ynglŷn â chanllawiau a gyhoeddwyd gan y sefydliad trwyddedu ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn y masnachau hacni a hurio preifat, a gofynnodd am gymeradwyaeth i roi'r canllawiau ar waith.

Nododd fod y Sefydliad Trwyddedu, ym mis Ebrill 2018, wedi cyhoeddi dogfen yn dwyn y teitl 'Canllawiau Diwygiedig ar Benderfynu ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau yn y Masnachau Hacni a Hurio Preifat' ("Y Canllawiau") a oedd ynghlwm â'r adroddiad fel Atodiad A.

Eglurodd fod ymgynghori eang ledled y wlad ar gynnwys y canllawiau gyda rhanddeiliaid gan gynnwys Cynghorwyr, Swyddogion Trwyddedu, Cyfreithwyr, y Masnachau Hacni a Hurio Preifat, Academïau, y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu.

Eglurodd y Swyddog Polisi Trwyddedu y bydd y polisi hwn yn cael ei ddefnyddio ynghyd â'r Gwasanaethau Rheoleiddiol a Rennir ac mai Pen-y-bont ar Ogwr fyddai'r Awdurdod lleol cyntaf i wneud hynny.

Gwnaeth y Swyddog Polisi Trwyddedu gyfeirio Aelodau at argymhelliad 9.1 o'r adroddiad a chroesawodd unrhyw gwestiynau.

Gofynnodd Aelod a oedd yna unrhyw newid ynglŷn â'r ffordd y mae'r Swyddogion Trwyddedu yn dod i wybod am euogfarnau.

Eglurodd y Swyddog Cyfreithiol na fyddai yna unrhyw newid ac y byddai'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r gwiriad Trwyddedau drwy'r DVLA yn cael eu defnyddio fel y dulliau safonol.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Trwyddedu yn tynnu'r polisi cyfredol yn ôl a oedd yn ymwneud â pherthnasedd euogfarnau a thrwyddedu cyn-droseddwyr, ac yn defnyddio'r canllawiau newydd AR benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn y masnachau hacni a hurio preifat sydd ynghlwm fel Atodiad B ar gyfer

ceisiadau trwyddedu a dderbynnir ar ôl y cyfarfod hwn (nid ar ôl 3 Mehefin 2019 fel y nodwyd yn yr adroddiad)

32. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 09:50

This page is intentionally left blank

**BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**REPORT TO LICENSING COMMITTEE**

**13 AUGUST 2019**

**REPORT OF THE HEAD OF LEGAL AND REGULATORY SERVICES**

**HACKNEY CARRIAGE/PRIVATE HIRE DRIVERS' KNOWLEDGE TEST**

## 1. Purpose of Report.

1.1 To provide details of the current application procedure for the grant of a Hackney Carriage/Private Hire Driver's Licence, and to seek Members' approval to introduce a staged implementation of a Knowledge Test for all new applicants.

## 2. Connection to Corporate Improvement Objectives/Other Corporate Priorities

2.1 The proposals are necessary to enable the Council to discharge its functions as a taxi licensing authority.

## 3. Background

3.1 Under Sections 51 and 59 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 licensing authorities are required to ensure that persons issued licences to drive hackney carriages and private hire vehicles are "fit and proper" with suitable skills and abilities to provide a hire and reward passenger service to the community as a whole in Bridgend County Borough Council (BCBC).

3.2 The role and responsibilities of a hackney carriage/private hire driver demands high standards in driving and customer service. Such competencies can impact on both public safety, comfort and passenger experience; particularly for the vulnerable, those with disabilities and other medical conditions. Therefore, professional drivers require relevant knowledge, skills and experience to safely and effectively discharge their role and responsibilities.

3.3 A number of authorities in Wales require new applicants to pass a knowledge test, including: Swansea, Neath and Port Talbot, Cardiff, Vale of Glamorgan, Monmouthshire, Rhondda Cynon Taff, Powys, Merthyr Tydfil, Caerphilly, Blaenau Gwent.

3.4 Driver competency should encompass the following criteria:

(a) Taxi fares are usually related to the time and distance travelled and it is therefore appropriate to ensure that licensed drivers know the shortest and/or most expedient route(s) to avoid unnecessarily high fares being charged to the customer;

(b) Licensed drivers do not generally have the opportunity to check the details of a route before it commences; and road works, diversions, traffic jams,

traffic accidents etc. mean that it is not always appropriate to rely on satellite navigation equipment or similar;

(c) It is essential for public safety that all licensed drivers can communicate in English at an appropriate level. Drivers must be able to communicate with passengers to discuss a route, or fare, as well as reading and understanding important regulatory, safety and travel information;

(d) As driver duties may also involve the handling and exchange of money and the giving of change, it is essential that they possess a reasonable ability in numeracy*;*

(e) Awareness of duties under the Equality Act 2010 should be tested, so that the needs of disabled passengers can be met at all times;

(f) Following the findings of the Jay and Casey reports, which related to Child Sexual Exploitation in Rotherham, Councils are being encouraged to provide some training to taxi drivers on children and vulnerable adult safeguarding, to include child sexual exploitation.

**4. Current situation / proposal**

4.1 Currently, applicants for a licence to drive a Hackney Carriage (HC) or Private Hire (PH) Vehicle within BCBC are required to undertake a short numeracy and literacy test followed by a half day Driver Awareness Course (DAC) which outlines the responsibilities of a taxi driver. The course includes equalities duties.

4.2 There is currently no verification of whether an applicant has understood the DAC and the proposed Knowledge Test will enable a more robust assessment to be completed. It is therefore proposed that the existing numeracy/literacy test and the Council's Driver Awareness Course (DAC) are replaced by the introduction of a Knowledge Test. The test will apply to new applicants only and not to renewal and therefore no approval to consult the trade is proposed.

4.3 It is proposed that the taxi driver's Knowledge Test covers a variety of relevant topics:

- Numeracy/literacy questions
- Hackney Carriage & Private Hire Legislation
- Location of Buildings and Places of Interest / Location of Streets in the County Borough
- Disability and Equality Awareness
- Safeguarding
- Routes within the County Borough and to major places of interest outside the County Borough e.g. airports, cultural and sporting venues.

The licensing authority will set the number of questions for each topic, pass rates and time limits. The training material will be provided as part of the application process.

4.4 To allow applicants to reflect upon the test questions and / or prepare more thoroughly, the licensing authority will allow, where eligible, applicants that fail any part of the Knowledge Test to re-sit a different test after a suitable period.

4.5 The licensing authority will allow applicants to take up to a maximum of three separate tests in a six month period. Unless there are exceptional circumstances, the licensing authority will refuse to grant a hackney carriage and/or private hire driver's licence to any individual who does not pass the test within these limits.

4.6 If an applicant has previously held a drivers' licence it is proposed the following criteria should be met:

a) If it is six months or less since their previous drivers' licence expired – new applicants will not be required to take the Knowledge Test.

b) If it is more than six months since their previous drivers' licence expired – new applicants will be required to take the Knowledge Test.

4.7 By way of ensuring that these tests do not comprise an unnecessarily high obstacle or barrier of entry into the trade, the licensing authority will seek to keep the tests under review and ensure that the stringency of each test reflects the complexity or otherwise of local geography and highway infrastructure.

4.8 Most authorities that have a Knowledge Test charge an additional fee to drivers to cover the administrative costs of the test. It is proposed that the cost of the first and subsequent two attempts is £25 and that the fee structure is amended accordingly. (The current DAC course fee is £35)

4.9 It is also proposed that failure to attend an appointment for a test without giving at least 48 hours' notice will require the applicant to pay a £10.00 booking fee if they wish to arrange a further test.

4.10 It is proposed that the Knowledge Test is introduced with effect from 1 November 2019.

## 5. Effect upon Policy Framework & Procedure Rules.

5.1 None.

## 6. Equality Impact Assessment

6.1 An Equality Impact Screening has been undertaken to establish if this proposal will impact on one or more of the protected characteristics. The screening has identified that the introduction of a written test may impact on applicants with literacy or numeracy issues. However measures have been put in place to mitigate the risk through multiple test opportunities and appropriate signposting to courses and support for candidates. Application failure rates will be monitored to inform a full EIA once the test has been implemented.

## 7. Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 Implications

7.1 The well-being goals identified in the Act were considered in the preparation of this report. It is considered that there will be no significant or unacceptable impacts upon the achievement of well-being goals/objectives as a result of this report.

## 8. Financial Implications.

8.1 A fee has been set to recover the cost of administering the test and retests.

## 9. Recommendation.

The Committee is recommended to:

9.1 Approve the proposal to introduce a Knowledge Test as part of new hackney carriage/private hire driver's licence application process;

9.2 Approve the introduction of a £25 fee as cost for the first and subsequent two test attempts;

9.3 Approve the introduction of a £10 fee as cost for the failure to attend a booked test without giving 48 hours' notice;

9.4 Approve that the final details and content of the Knowledge Test is delegated to the Head of Legal and Regulatory Services and resolve that the Knowledge Test is introduced from 1st November 2019.

**Kelly Watson**
**HEAD OF LEGAL AND REGULATORY SERVICES**

**7 August 2019**

**Contact Officer:** Ilaria Agostini-Green
Senior Licensing Officer (Enforcement)

**Telephone:** (01656) 643643

**E-mail:** ilaria.agostini-green@bridgend.gov.uk

**Postal Address** Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

**Background documents**:

Independent Inquiry into Child Sexual Exploitation in Rotherham:
https://www.rotherham.gov.uk/downloads/file/1407/independent_inquiry_cse_in_rotherham

Report of Inspection of Rotherham Metropolitan Borough Council:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/401125/46966_Report_of_Inspection_of_Rotherham_WEB.pdf

This page is intentionally left blank